Ein Stori Lawen

Yr ydym yn Eglwys Blwyf Gymraeg yng nghanol y ddinas ac yr ydym wedi bod yn rhan o fywyd, bwrlwm a thwf Caerdydd ers mwy na chanrif a hanner.

- Mynegwn ein ffydd Gristnogol yn llawen trwy ein haddoliad, ein gwasanaeth a'n cymdeithas mewn awyrgylch sy'n groesawgar, gofalgar a theuluol ei naws.
- Yr ydym yn meithrin ein plant a'n pobl ifanc trwy weithgareddau'r Ysgol Sul a'r gwasanaethau teuluol, a thrwy ein gwasanaethau litwrgaidd, y geiriau a'r gerddoriaeth cawn ein hysbrydoli i addoli a gwasanaethu'r Duw byw.
- Yr ydym yn falch o annog a chefnogi dysgwyr y Gymraeg.
- Mae croeso ac mae lle yn yr eglwys hon i bawb sydd am ystyried neu ailgydio yn eu ffydd neu sy'n chwilio am gartref ysbrydol.

Os am ragor o wybodaeth am Eglwys Dewi Sant:
Ficer/Vicar: Y Parchedig Ganon Dyfrig C. Lloyd
Rhif Ffôn: 029 2056 6001
E-bost: dyfriglloyd@hotmail.com
Curad / Curate: Y Parchedig Athro Lloyd Llewellyn-Jones
Y Wardeniaid/Churchwardens:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Delyth Davies – Ffôn: 077 61 118722
E-bost: delyth.d@yahoo.com
Cyfarwyddwr Cerdd:
Ieuan Jones, B. Mus - Ffôn: 074 29 012781
E-bost: ieuanjones@hotmail.co.uk
Trysorydd:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Ysgrifennydd Cymorth Rhodd:
Graham Carson - Ffôn: 07712387203
Ysgrifennydd Cyngor Plwyf:
Marian Fairclough - Ffôn: 07579763030
E-bost: faircloughmarian@gmail.com

Esgobaeth Llandaf + Deoniaeth Caerdydd

EGLWYS DEWI SANT
www.eglwysdewisant.org.uk

CROESO i bawb sydd yn ymweld â'r eglwys heddiw. Cofiwch ymuno â ni am baned a sgwrs yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth.

1 Mawrth 2026
Gŵyl Ddewi

8.00am Y Cymun Bendigaid
Darllenydd: Ifer Arch

10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân ac Ysgol Sul
Darllenwyr: Liz Harewood / Hannah Watkin
Anthem: *Arwain fi gan David Blackwell*
Emynau: 215 (Penlan); 212 (Gweddi Wladgarol); 216 (Finlandia); 214 (Blaenwern)

6.00pm Yr Hwyrol Weddi a Phregeth
Salm: 92
Darlleniadau: Eseciel 2:1-7
II Timoetheus 4:1-8
Darllenwyr: Delyth Davies / Rhys Jones
Emynau: 207 (Dismissial 140); 158 (Carlisle 598); 556 (Rheidol 555)

YN EIN GWEDDÏAU

Cofiwn yn ein gweddïau y cleifion: Hywel Davies (Offeiriad), Dilys Hicks, Eleri Hughes, Gwenda Williams ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn hefyd dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist a thros bawb y cofiwn am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

Yn yr Eglwys:

Nos Fawrth 3 Mawrth 2026
6.00pm Ymarfer Côr

Dydd Mercher 4 Mawrth 2026
10.30am Y Cymun Bendigaid
8.00pm Cwmplin dros Zoom

Dydd Sul 8 Mawrth 2026
Garawys III
10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân
6.00pm Yr Hwyrol Weddi a Phregeth

HEDDIW: DATHLU GŴYL DDEWI

Byddwn yn cadw gŵyl ein nawddsant y Sul heddiw gyda gweinyddiad o'r Cymun Bendigaid ar gân am 10.30am. Croesawn ein pregethwr gwadd y Parchedig Ganon Andrew Sully, arweinydd Ardal Gweinidogaeth Gorllewin Caerdydd. Bydd cinio o gawl yn y neuadd yn syth ar ôl y gwasanaeth. Croeso cynnes i bawb.

CYNGERDD AWR GINIO

Cynhelir cyngerdd awr ginio o dan nawdd Actifyddion Caerdydd dydd Mawrth 3 Mawrth am 1.00pm. Bydd *Ensemble 360 String Trio* yn perfformio. Tocynnau'n £6.50 wrth y drws.

TAITH GERDDED DDINESIG

Mae eleni yn garreg filltir yn hanes EDS. 85mlynedd yn ôl i'r 3ydd/4ydd o Fawrth eleni disgynnodd bom ar Howard Gardens gan ddifrodi'r hen Eglwys Dewi Sant yn llwyr. *(Gweler fy llythyr yn Nghloch Dewi Ionawr 2026)*. I nodi'r bennod dyngedfennol hon yn ein hanes fel eglwys trefnir taith gerdded o'r EDS bresennol i Howard Gardens dydd **Mercher 4 Mawrth** ar ôl y gwasanaeth Cymun 10.30am.

Dyma fraslun o'r amserlen:

10.30am – Y Cymun yn EDS

11.00am - Coffi yn y neuadd

11.30am – Cerdded draw i Howard Gardens (Croeso i chi fynd mewn car. Mae llefydd parcio yn Howard Gardens, ond bydd angen talu).

I'r rhai sy'n dymuno, byddwn yn mynd i'r caffi yn y "Capel i Bawb" (sef hen gapel yr Infirmari ar Glossop Road) am baned a brechdan. Yn syth ar ôl i'r hen EDS gael ei difrodi, dyma lle'r oedd y gynulleidfa yn cyfarfod am ychydig, cyn i safle'r hen gael ei wneud yn ddiogel ac i'r gynulleidfa ddychwelyd i addoli yn yr Ysgoldy nesaf at adfeilion a oedd nesaf at adfeilion yr eglwys.

CWMPLIN DROS ZOOM

Cynhelir gwasanaeth cwmplin a myfyrdod bob nos Fercher am 8.00pm dros Zoom. "Perthyn yng Nghrist" yw thema ein myfyrdodau eleni. Bydd y manylion Zoom yn mynd allan ar e-bost gyda'r daflen wythnosol.

DYDD GWEDDI'R BYD

Braint EDS eleni yw cynnal gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd. Fe'i cynhelir **Dydd Gwener 6 Mawrth am 2.00pm.** Mae'r gwasanaeth wedi'i baratoi gan wragedd Cristionogion Nigeria ar y thema "Rhoddaf Orffwys i chi, dewch". Mae **croeso i bawb** ac ar ôl y gwasanaeth fe fydd lluniaeth ysgafn yn y neuadd. Am ragor o wybodaeth mynnwch air â Mairlis Davies.

Y CYLCH CATHOLIG

Cynhelir Offeren i ddathlu Gŵyl Ddewi o dan yn Eglwys Gatholig St Teilo yr Eglwys Newydd nos Lun 2 Mawrth am 6pm. Croeso i bawb.

LLEISIAU O TU HWNT I'R BEDD

Mae grŵp ysgrifennu '*Living Lines'* wedi bod yn adrodd storïau am gyn-drigolion Caerdydd a'r ardal ers 2018. Mae'r cymeriadau yn dod yn fyw wrth i actorion A48 actio'r sgriptiau mewn gwisgoedd cyfnod. Cynhelir perfformiadau yn EDS ar **17 ac 18 Ebrill 2026**. Dyma gyfle i chi nodi'r digwyddiad yn eich dyddiaduron. Manylion pellach i ddilyn.

GWEDDÏAU'R SUL

- Y Nippon Sei Ko Kai
- Archddiaconiaeth Llandaf, yr Hybarch Rod Green, archddiacon.

Darlleniadau a Gwyliau

Dydd Llun 2 Mawrth:
Doethineb 5:1-16; Salm 112; Hebreaid 11:8-16
Gweddïwn: Esgobaeth Toamasina – Eglwys Esgobol Talaith Cefnfor India
Ardal Gweinidogaeth y Rath a Cathays, y Parchedig Ganon Stewart Lisk

Dydd Mawrth 3 Mawrth:
Eseia 1:10-20; Salm 50:7-1; Mathew 23:1-12
Gweddïwn dros: Esgobaeth Tohoku – Y Nippon Sei Ko Kai
Ardal Gweinidogaeth De Caerdydd, y Parchedig Dean Atkins, arweinydd

Dydd Mercher 4 Mawrth:
Jeremeia 18:18-20; Salm 31:1-5, 13-16; Mathew 20:17-28
Gweddïwn dros: Esgobaeth Tokyo – Y Nippon Sei Ko Kai
Ardal Gweinidogaeth Gorllewin Caerdydd, y Parchedig Ganon Andrew Sully, arweinydd

Dydd Iau 5 Mawrth: Non
Jeremeia 17:5-10; Salm 1; Luc 16:19-31
Gweddïwn dros: Esgobaeth Toliara – Eglwys Talaith Cefnfor India
Ardal Gweinidogaeth Gogledd Caerdydd, y Parchedig Ganon Elaine Jenkyns

Dydd Gwener 6 Mawrth: Dydd Gweddi'r Byd
Genesis 37:3,4, 12-28; Salm 17:1-8; Mathew 21:33-46
Gweddiwn dros: Esgobaeth Tonj – Talaith Eglwys Esgobol De Swdan
Ardal Gweinidogaeth Taf Wenallt, y Parchedig Theresa Parker – darpar arweinydd

Dydd Sadwrn 7 Mawrth: *Perpetwa, Ffelicitas a'u Cymdeithion*
Gweddïwn dros: Esgobaeth Torit – Talaith Eglwys Esgobol De Swdan
Ardal Gweinidogaeth y Garth, y Parchedig Sandra Birdsall, arweinydd